------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Committee Room 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 7 Rhagfyr 2017

Amser: 09.00


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru


**1 Digwyddiad i randdeiliaid - Adfywio canol trefi: 5 mlynedd yn ddiweddarach (Preifat)** (09.00-11.00)

**2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

**3 Craffu ar waith y Gweinidog Tai ac Adfywio - Adfywio canol trefi: 5 mlynedd yn ddiweddarach**

(11.30-12.30) (Tudalennau 1 - 33)

Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Tai ac Adfywio

Steffan Roberts, Pennaeth Strategaeth a Chyllid, Yr Is-adran Cartrefi a Lleoedd

Neil Hemington, Pennaeth Cynllunio

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

EIS(5)-28-17(p1) Y Gweinidog Tai ac Adfywio

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at gyrff perthnasol ynghylch cynllunio trafnidiaeth mewn digwyddiadau mawr

(Tudalennau 34 - 36)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-28-17(p2) Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at gyrff perthnasol ynghylch cynllunio trafnidiaeth mewn digwyddiadau mawr

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 6 Papur cwmpasu - Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 - Craffu ar ôl Deddfu

(12.30-12.45) (Tudalennau 37 - 43)

Dogfennau atodol:

Papur cwmpasu

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

**Adfywio Canol Trefi**

**Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru**

## Cyflwyniad

1. Mae canol trefi a dinasoedd yn aml yn cael eu hystyried yn guriad calon cymunedau. Mae canol trefi cadarn, bywiog a chydnerth yn creu ymdeimlad o falchder ac o berthyn.

2. Mae canol trefi yn amgylcheddau dynamig sy'n cael eu dylanwadu'n barhaus gan gyfuniadau cymhleth o ffactorau lleol a byd-eang. Yn ystod y degawd diwethaf, mae canol trefi yng Nghymru wedi cael eu heffeithio gan ffactorau o'r fath ac mae wedi bod yn heriol i drefi ddatblygu cydnerthedd. Yn sgil cynnydd yn nifer y canolfannau siopa ar gyrion trefi a mynediad i'r rhyngrwyd, nid oes gan fanwerthu yr un statws erbyn hyn. Mae arferion siopa wedi newid ac mae rôl a swyddogaeth ein trefi wedi newid yn llwyr o gymharu â'r gorffennol.

3. Mae'r angen i ganol trefi esblygu ac arallgyfeirio er mwyn cyflawni'r heriau hyn yn fwy nag erioed o'r blaen. Mae'n bwysig i ganol trefi addasu a newid.

4. Ni all canol trefi fod yn lleoedd i siopa yn unig mwyach. Mae angen i ganol trefi fod yn fannau lle mae pobl yn dod i ddysgu, i gael mynediad i wasanaethau cyhoeddus, i gefnogi ffyrdd o fyw egnïol, ac i fyw ac i ymlacio ynddynt. Ni all pob tref ddatblygu hunaniaeth mor glir â'r Gelli Gandryll neu Arberth, ond dylai lleoedd ystyried eu hunain yn gyrchfannau ehangach ac adeiladu ar eu pwyntiau gwerthu unigryw eu hunain.

5. Un o egwyddorion sylfaenol ein hymyriadau yw rhoi'r offer a'r cymorth i gymunedau allu gwireddu hyn. Mae'n golygu galluogi i gymysgedd o ymyriadau hyblyg, sydd wedi'u teilwra ac sydd wedi'u targedu'n dda gael ei ddatblygu, a fydd yn gwella gwytnwch a natur gystadleuol lleoliadau o'r fath yn y tymor hwy.

6. Mae'n rhaid cyflawni adfywiad mewn partneriaeth ac, wrth inni ddechrau defnyddio dulliau adfywio newydd, mae angen inni sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid ehangach, i ddatblygu mentrau i gefnogi canol ein trefi yn berthnasol a phwrpasol. Mae'n rhaid i'n hymyriadau yn awr ac yn y dyfodol adlewyrchu hefyd yr arfer gorau o Gymru ac ymhellach.

## Deall yr heriau sy'n esblygu sy'n wynebu canol trefi

7. Mae'n bwysig deall yr heriau, y cyfleoedd a'r cymorth sydd eu hangen i gynorthwyo ein cymunedau i esblygu, tyfu a ffynnu.

8. Mae ein cefnogaeth ar gyfer adfywio canol trefi yn adlewyrchu'r ymrwymiad i waith cydgysylltiedig a gwneud pethau'n wahanol, a nodir yn y strategaeth genedlaethol newydd *Ffyniant i Bawb*. Rydym yn cydnabod bod ein cyfranogiad yn y gwaith o gefnogi canol trefi llwyddiannus yn galw am ymrwymiad ar draws y

Llywodraeth gyfan i gynnwys cydgysylltu meysydd gweithgarwch ar draws y llywodraeth, polisïau cynllunio, hygyrchedd a chyfleusterau parcio ceir, teithio llesol, treftadaeth, tai a chymorth busnes.

9. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i weithio gyda sefydliadau eraill a manteisio ar arbenigedd rhanddeiliaid megis Consortiwm Manwerthu Cymru a Chymdeithas Rheoli Tref a Dinas. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i geisiadau gan y sector manwerthu i ymgysylltu â hwy mewn ffordd fwy strwythuredig wrth ddatblygu a gweithredu polisïau ac mae swyddog arweiniol wedi bod yn gweithio ar ran y sector ers y llynedd.

10. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau bord gron yn ystod yr haf, a oedd wedi'u hwyluso gan Ymddiriedolaeth Carnegie y DU a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru gyda rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru. Cyflwynodd Carnegie ganfyddiadau o'i waith ymchwil rhyngwladol '*Turnaround Towns'* gyda'r bwriad o ysgogi trafodaeth. Mae Carnegie yn cwblhau ei adroddiad yn awr, a fydd yn cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Tachwedd, gydag argymhellion ar gyfer rhanddeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Byddai'n briodol i'r Pwyllgor hwn ystyried yr adroddiad fel rhan o'i dystiolaeth.

11. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymateb yn gadarnhaol i un o argymhellion adroddiad Carnegie. Mae cael data cadarn yn ofyniad sylfaenol ar gyfer cefnogi adfywiad, o ran deall anghenion lleoedd cyn gweithredu strategaethau adfywio ac er mwyn monitro effaith unrhyw ymyriadau. Mae cymorth ariannol wedi'i gymeradwyo i ddatblygu offeryn data 'Deall Lleoedd yng Nghymru' ar y we a disgwylir i'r gwaith ar hyn ddechrau cyn bo hir.

12. Mae hefyd yn berthnasol inni fyfyrio ar yr ymgysylltiad diweddar yn y cymoedd, oherwydd roedd yn canolbwyntio llawer ar ddyfodol canol trefi yn y cymoedd. Roedd y cymunedau yn amlwg yn mynegi gwerth cael canol trefi llwyddiannus sy'n ffynnu. Cyhoeddodd Tasglu'r Cymoedd strategaeth *'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol'* yn ddiweddar, a nododd dri maes blaenoriaeth hollbwysig, sef swyddi safonol a'r sgiliau i'w gwneud, gwasanaethau cyhoeddus gwell a'r gymuned leol.

13. Mae'r angen i roi canolbwynt newydd i ganol trefi yn elfen amlwg ac, yn sgil yr ymgysylltiad a gynhaliwyd ar draws y Cymoedd, mae nifer o gamau gweithredu yn cael eu datblygu yn awr. Byddwn yn cefnogi mentrau sy'n hybu cymysgedd o dai, manwerthu, busnesau a mannau gwyrdd drwy'r rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio a lansiwyd yn ddiweddar. Mae'r Tasglu hefyd wedi ymgysylltu â'r Sefydliad Rheoli Lleoedd, a dderbyniodd wahoddiad i gyflwyno ei ymchwil ar adfywio a datblygu cymunedau a rhannu mentrau mewn canol trefi sy'n cael eu treialu ar hyd a lled y DU.

**Gweithgareddau adfywio diweddar Llywodraeth Cymru**

14. Gallwn gyfeirio at nifer o enghreifftiau llwyddiannus o adfywio canol trefi yn y blynyddoedd diwethaf.

15. Darparodd rhaglen gyfalaf *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid* fuddsoddiad o fwy na £124 miliwn mewn 18 o ardaloedd rhwng 2014 a 2017. Nod y rhaglen hon

oedd adfywio canol trefi, cymunedau arfordirol a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf.

16. Hyd yma, mae'r rhaglen *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid* wedi darparu 1,851 o swyddi, wedi cynorthwyo 7,767 o bobl i gael gwaith, ac wedi adeiladu 914 o dai fforddiadwy a 961 o dai ar gyfer y farchnad agored. O ran buddsoddiad Llywodraeth Cymru, mae £320 miliwn wedi'i ddarparu gan bartneriaid o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus. Mae rhai mathau o weithgarwch yn parhau i gael eu cyflenwi a rhagwelir y bydd cynnydd yn yr allbynnau a'r canlyniadau hyn yn y 12 mis nesaf wrth i brosiectau ddod i ben.

17. Yn Abertawe, defnyddiwyd arian *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid* ar gyfer gwelliannau mawr yn ardal y Stryd Fawr, gan weithio ochr yn ochr â buddsoddiad gan y sector preifat. Mae prosiectau ar y Stryd Fawr wedi cyflenwi tai cymdeithasol newydd, gofod llawr masnachol, unedau datblygu busnesau a mannau cyhoeddus gwell, gan adfywio ardal sydd wedi'i hesgeuluso. Maent hefyd wedi creu cyfleoedd swyddi a hyfforddiant y mae angen mawr amdanynt yn Abertawe. Yng Nghaergybi, rydym wedi cefnogi pecyn integredig o welliannau i ganol y dref a fydd yn gwneud y dref yn lle mwy deniadol i reoli busnes. Mae hyn wedi cynnwys rhaglen Menter Treftadaeth Treflun er mwyn gwella treftadaeth adeiladau pwysig a gwella mynediad yng nghanol y dref.

18. Gwelwyd cynnydd sylweddol o ran *Ardaloedd Gwella Busnesau* yng Nghymru. Rhoddodd y Pwyllgor gryn sylw i'r ardaloedd hyn yn 2012, gan baratoi'r ffordd i Lywodraeth Cymru ymchwilio ymhellach i'r cyfleoedd i gefnogi'r agenda adfywio. Yn dilyn hyn lansiwyd rhaglen gyllid gennym ac, o ganlyniad, sefydlwyd wyth ardal gwella busnes gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, sy'n creu cyfanswm o ddeuddeg yng Nghymru. Gyda'i gilydd, bydd yr wyth ardal sy'n cael eu hariannu drwy'r rhaglen yn cynhyrchu tua £1 filiwn o fuddsoddiad preifat y flwyddyn mewn cyfnod o bum mlynedd. Yng Nghastell-nedd, er enghraifft, bu ffocws ar weithgareddau i greu profiad gwell i breswylwyr ac ymwelwyr, hybu hunaniaeth fwy cadarn i'r dref a chefnogi twf busnesau presennol.

19. Cefnogodd Llywodraeth Cymru raglen *Partneriaethau Canol y Dref* rhwng 2014 a 2017. Rydym wedi darparu cyllid o hyd at £50,000 i 20 o drefi ar hyd a lled Cymru, a oedd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer sefydlu partneriaethau, datblygu cynlluniau gweithredu pwrpasol a chyflenwi gweithgarwch prosiect. Daeth y rhaglen tair blynedd i ben ym mis Mawrth 2017 gyda chyfanswm o £847,000 wedi'i ddyfarnu ac mae'n bleser gweld cymaint o'r partneriaethau hyn yn parhau i arwain digwyddiadau a gweithgareddau yn eu hardaloedd, gyda rhai ohonynt yn gobeithio tyfu ymhellach. Defnyddiodd y bartneriaeth yn Aberdâr y cyllid i weithio gyda busnesau yn y dref i greu canol tref a oedd yn lân, yn ddiogel ac yn hygyrch a hefyd mynd i'r afael â'r broblem o eiddo gwag drwy annog datblygu siopau dros dro. Mae'r bartneriaeth yn Aberdâr wedi ymchwilio i ymarferoldeb Ap canol y dref ac maent hefyd wedi cefnogi nifer o ddigwyddiadau bach.

20. Rydym yn cefnogi *Cynllun Benthyciadau Canol Tref* yn awr gyda gwerth £20 miliwn o gyllid yn cael ei fuddsoddi ar draws 18 awdurdod lleol. Mae'r cyllid hwn yn fenthyciad i awdurdodau lleol am 15 mlynedd ac, yn ystod y cyfnod hwn, mae

cynghorau yn buddsoddi ac yn ailgylchu'r cyllid ar brosiectau adfywio sy'n ceisio annog ailddefnyddio adeiladau gwag a safleoedd diffaith. Er enghraifft, derbyniodd Cyngor Caerdydd gyllid i gefnogi'r gwaith gwerth £3.5 miliwn o adfer y Tramshed yn Grangetown. Mae'r prosiect hwn wedi trawsnewid eiddo mawr gwag yn ganolfan perfformio a chynadledda amlgelfyddyd, yn sinema ac yn unedau preswyl i fyw/gweithio ynddynt. Mae'r prosiect hefyd wedi creu uned datblygu'r cyfryngau digidol gyda chaffi. Mae'r benthyciad wedi cau'r bwlch yn y cyllid ac mae'r datblygiad dilynol wedi creu neu ddiogelu 250 o swyddi ac wedi cynorthwyo i sefydlu 25 o fentrau. Mae'r dyraniad wedi'i ad-dalu'n llawn ac mae'r Cyngor yn ymchwilio yn awr i gyfleoedd eraill i ail-fuddsoddi'r cyllid.

21. Mae *Adeiladu ar gyfer y Dyfodol* yn rhaglen adfywio gwerth £150 miliwn sy'n cael ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd a fydd yn gweithredu hyd at 2023. Mae'r rhaglen yn ceisio helpu i adfywio canol trefi a'r ardaloedd cyfagos drwy fynd i'r afael â thir neu adeiladau diffaith neu sy'n cael eu tanddefnyddio. Y nod yw caffael, adnewyddu neu ailddatblygu adeiladau a thir nad ydynt yn cael eu defnyddio a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod defnydd terfynol cynaliadwy wedi'i sicrhau a fydd yn creu swyddi a thwf a chyfrannu at yr agenda trechu tlodi. Mae'r rhaglen wedi'i thargedu ar gyfer canol trefi a dinasoedd ac mae'n gweithredu ar draws gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Ymhlith y prosiectau cynnar sydd wedi derbyn cymeradwyaeth dros dro mae Sinema'r Plaza ym Mhort Talbot fel canolfan hyfforddiant a chanolfan gymunedol ac ailddatblygu adeilad Neuadd y Farchnad Caergybi.

22. Y mis diwethaf cyhoeddwyd rhaglen newydd, *Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio,* ar gyfer y cyfnod 2018-32 yn ogystal â chyhoeddi canllaw i awdurdodau lleol ar sut i wneud cais, ochr yn ochr â sefydliadau partner, am hyd at £100 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf a fydd ar gael i hybu adfywiad economaidd ein cymunedau a chyflawni nodau datblygu cynaliadwy ehangach.

23. Mae gan y rhaglen targedu buddsoddiad mewn adfywio rôl hollbwysig o ran ysgogi ffyniant a chreu cymunedau cydnerth ym mhob rhan o Gymru, yn hytrach na dim ond yn yr ardaloedd hynny sy'n cynnig yr elw masnachol gorau. Mae yna heriau penodol sy'n gysylltiedig â threchu anghydraddoldeb a datblygu cymunedau cynaliadwy sydd wedi'u cysylltu'n dda mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd neu sydd wedi'u difetha gan ddiwydiant trwm yn y gorffennol.

24. Yn unol â'r nodau yn *Ffyniant i Bawb,* y bwriad yw bod awdurdodau lleol a phartneriaethau rhanbarthol yn defnyddio'r cyllid hwn i ategu ac atgyfnerthu buddsoddiadau eraill yr ydym yn eu gwneud er mwyn ehangu ffyniant. Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu atebion cydgysylltiedig a bydd angen i'r prosiectau sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer cyllid adfywio gael eu hintegreiddio gyda Chynlluniau Llesiant Lleol, y gwaith sy'n cael ei wneud o dan y Bargeinion Dinesig, ein buddsoddiad yn y system Metro, y cynigion gan Dasglu'r Cymoedd a'r paratoadau ar gyfer Wylfa Newydd.

25. Rydym hefyd yn awyddus i'r buddsoddiad cyfalaf newydd hwn gefnogi rhaglenni eraill sy'n ceisio creu cymunedau mwy cydnerth, gan gynnwys ein rhaglenni

cyflogadwyedd a sgiliau. Mae angen i brosiectau ddatblygu o ymgysylltiad gwirioneddol gyda chymunedau a byddwn yn edrych ar y partneriaethau datblygu economaidd sy'n cael eu creu ar hyd a lled Cymru er mwyn penderfynu pa rai fydd yn cyflawni'r effaith fwyaf.

26. Bydd llwyddiant y rhaglen yn dibynnu'n rhannol ar greu partneriaethau rhanbarthol cryf sy'n gallu nodi a chyflenwi'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi. Ond ni ddylai'r partneriaethau hyn weithredu ar eu pen eu hunain. Mae'n rhaid sicrhau mai ein nod yw bod y broses o nodi blaenoriaethau adfywio yn seiliedig ar ddealltwriaeth mor gynhwysfawr â phosibl o'r ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael. Ein her i'n partneriaeth yw datblygu cyfleoedd newydd mewn ffordd uchelgeisiol ac arloesol er mwyn hybu adfywiad a lledaenu ffyniant. Mae angen inni sicrhau bod ein hadnoddau yn canolbwyntio ar nifer gyfyngedig o gynigion buddsoddi, sydd â sail economaidd gref a chlir ar gyfer adfywio a bod creu cyfleoedd cyflogaeth a gwella sgiliau a chyflogadwyedd wrth wraidd y cynigion a'u bod yn cael eu targedu tuag at yr ardaloedd sydd angen y cymorth mwyaf.

27. Mae angen inni annog ein partneriaid cyflenwi i beidio ag ystyried canol trefi fel maes polisi sydd ar wahân ac yn wahanol i feysydd polisi eraill. Gall ein trefi a'n dinasoedd weithredu fel llwyfan i sicrhau newid ffisegol pwysig ond hefyd, yn hollbwysig, gallant gefnogi a chyflawni blaenoriaethau strategol eraill Llywodraeth Cymru yr un pryd. Er enghraifft, mae prosiectau adfywio mewn trefi a dinasoedd sy'n cael eu harwain gan dai yn cefnogi ein targed o 20,000 o dai fforddiadwy ond maent hefyd yn mynd i'r afael ag eiddo gwag ac yn cynhyrchu ymwelwyr angenrheidiol sy'n ysgogi gwasanaethau eraill. Yn yr un modd, gall gofal plant fforddiadwy, gwasanaethau cyhoeddus a darpariaeth iechyd a llesiant yn y lleoliad cywir hybu nifer o fanteision cadarnhaol i ganol trefi.

**Adroddiad Pwyllgor Menter a Busnes 2012**

28. Croesawodd Llywodraeth Cymru ymchwiliad y Pwyllgor i adfywio canol trefi a'i adroddiad yn 2012. Roedd ffocws y Pwyllgor yn canolbwyntio ar ymrwymiad y Llywodraeth i gefnogi canol trefi a dinasoedd ac roeddem yn falch o gefnogi argymhellion y Pwyllgor.

29. Yn ogystal, rydym yn croesawu'r ffocws o'r newydd hwn ar adfywio canol trefi ac yn croesawu'r cyfle i gyflwyno adroddiad i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar y cynnydd diweddar. Gan fyfyrio ar adroddiad y Pwyllgor a'r argymhellion a wnaed yn 2012, darperir diweddariad gyda'r papur hwn.

**Casgliad**

30. Mae ffocws newydd y Pwyllgor ar adfywio canol trefi ar yr adeg hon yn gyfle pwysig i fyfyrio ar yr ymdrechion amrywiol sydd wedi'u cefnogi ar hyd a lled Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Wrth inni edrych i'r dyfodol mae'n bwysig ein bod yn cydnabod cyfleoedd a heriau amrywiol.

31. Mae'r heriau yn parhau o ran adfywiad economaidd a chefnogi llesiant cymunedol yng Nghymru. Mae nifer o ardaloedd yn dioddef dirywiad economaidd a chymdeithasol sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn, er gwaethaf yr

ymdrechion unedig dros nifer o flynyddoedd. Mae'r heriau sy'n wynebu canol trefi mewn rhai rhannau o Gymru yn aml yn deillio o'r materion dwfn hyn a bydd angen cymorth parhaus ar nifer o leoliadau yn y dyfodol.

32. Byddwn yn wynebu rhai penderfyniadau anodd yn y dyfodol. Bydd y pwysau ariannol cynyddol ar bob rhan o'r Llywodraeth, y cyfnod parhaus o gyni ac ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Phrydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dwysáu'r heriau ariannol a wynebwn. Bydd yr angen i nodi cyfleoedd adfywio clir a fydd yn gallu gwella llesiant cymunedau a darparu atebion cadarn a chynaliadwy yn hollbwysig.

33. Mae yna gyfleoedd pwysig hefyd. Byddwn yn ceisio ategu polisïau ehangach sy'n cael eu llywio gan yr economi, megis y Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf, ac mae cyfleoedd pellach i ategu blaenoriaethau rhanbarthol pwysig, er enghraifft gwaith Tasglu'r Cymoedd a datblygiad Wylfa Newydd. Mae'n rhaid i'r gwaith adfywio fanteisio ar y cyfleoedd ehangach hyn a helpu i ysgogi ymdrechion i helpu i greu a chefnogi cymunedau cydnerth.

34. Yn fwy cyffredinol, mae cyfleoedd pellach i ganol trefi'r dyfodol fanteisio ar arloesedd a thechnoleg, drwy leihau'r bwlch rhwng y rhai 'ar-lein' ac 'all-lein'. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd datblygu canol trefi mewn ffordd arloesol, yn seiliedig ar ddatblygiadau technolegol a chreu profiadau unigryw o gyrchfannau.

35. Y cyfle hollbwysig y mae angen inni fanteisio arno yw datblygu parodrwydd a gallu i gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Dim ond drwy ddefnyddio ein hymdrechion ar y cyd a'r angerdd sydd eisoes yn bodoli yn ein cymunedau y gallwn gyflawni newid gwirioneddol. Dyna fydd fy mhrif flaenoriaeth wrth inni hyrwyddo'r agenda hon yng Nghymru.

**Rebecca Evans AC**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Tachwedd 2017**

**Diweddariad ar yr Argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Menter a Busnes yn ei ymchwiliad i Adfywio Canol Trefi yn 2012**

<table>
<tr><th>Argymhelliad</th><th>Ymateb Llywodraeth Cymru 2012</th></tr>
<tr><td><u>Argymhelliad 1 –</u> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i diwygiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol ar faterion economaidd, yn sicrhau bod Polisi Cynllunio Cymru yn diogelu canol trefi'n llwyr rhag effeithiau posibl datblygiadau manwerthu ar gyrion trefi, ac y dylai'r Llywodraeth hefyd gymryd camau i wella'r broses o roi polisi cynllunio cenedlaethol a lleol ar waith. (Tudalen 14)</td><td>Derbyn<br><br>Bydd y polisi diwygiedig arfaethedig (daeth ymgynghoriad ar Bennod 7 Polisi Cynllunio Cymru i ben ar 5 Mawrth 2012) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu dull mwy cyfannol o fynd i'r afael â gwaith datblygu economaidd a chydnabod bod rhywfaint o effaith economaidd yn deillio o'r rhan fwyaf o ddefnyddiau o dir.  Bydd disgwyl i awdurdodau lleol ystyried effeithiau tebygol yr holl ddatblygiadau ac edrych ar yr holl gynigion ar y cyd o safbwynt eu heffaith ar yr economi yn hytrach na'r cynigion yn unigol. Mae'r polisi diwygiedig hefyd yn pennu y dylai awdurdodau lleol geisio canolbwyntio ar ddatblygiadau sy'n denu nifer fawr o bobl, gan gynnwys manwerthu a swyddfeydd, yng nghanol dinasoedd, trefi a phentrefi.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Diweddariad Tachwedd 2017</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyhoeddwyd polisi cynllunio diwygiedig ar waith datblygu economaidd ym Mhennod 7 Polisi Cynllunio Cymru ym mis Hydref 2012. Wedi hynny cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23 Datblygu Economaidd ym mis Chwefror 2014.<br><br>Mae Pennod 7 Polisi Cynllunio Cymru a TAN 23 yn cydnabod manwerthu fel defnydd economaidd o dir ac yn rhoi cyngor polisi i awdurdodau cynllunio lleol ynghylch pwyso a mesur manteision economaidd datblygiadau newydd, a llywio datblygiadau i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy. Mae'r cyngor hwn yn ategu polisi cryf "canol trefi yn gyntaf" sydd eisoes wedi'i gynnwys ym Mhennod 10 Polisi Cynllunio Cymru Datblygu Canolfannau Manwerthu a Masnachol a ddiwygiwyd, ynghyd â TAN 4 Datblygiadau Manwerthu a Masnachol, ym mis Tachwedd 2016. Mae 'Canol Trefi yn Gyntaf' yn cefnogi dull dilyniannol o ran lleoli datblygiadau manwerthu a defnydd atodol arall, lle y dylid ystyried lleoliadau mewn canolfannau manwerthu a masnachol yn gyntaf.<br><br>Mae Polisi Cynllunio Cymru bellach wrthi'n cael ei ddiwygio ymhellach i sicrhau ei fod yn adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a bydd yn destun ymgynghoriad yng ngwanwyn 2018.<br><br>Daeth is-ddeddfwriaeth i rym ar 22 Mehefin 2015 (drwy ddiwygio'r gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru)) sy'n golygu y bydd hi'n ofynnol cael caniatâd cynllunio i osod llawr mesanîn mewn adeiladau manwerthu lle bydd yr arwynebedd llawr ychwanegol yn fwy na 200 metr sgwâr. Mae hyn yn golygu y bydd y datblygiadau hyn bellach yn cael eu hasesu yn erbyn polisi cynllunio cenedlaethol presennol ynghylch manwerthu.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Argymhelliad</th><th>Ymateb Llywodraeth Cymru 2012</th></tr>
<tr><td><u>Argymhelliad 2 -</u> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo awdurdodau lleol i wneud defnydd gwell o’u cytundebau â manwerthwyr ar gyrion trefi er mwyn diogelu bywiogrwydd canol trefi ymhellach. (Tudalen 15)</td><td>Derbyn<br><br>Mae rheoliadau eisoes yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau dan gontract i ddatblygiadau ar gyrion trefi a mater i awdurdodau lleol yw trafod a negodi â datblygwyr a manwerthwyr ar gyrion trefi ynghylch materion o’r fath, gan ddiogelu bywiogrwydd canol trefi, fel y bo’n briodol.<br><br>Fel rhan o’n hadolygiad o adfywio bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y modd yr ydym yn datblygu canllawiau ar gyfer ein partneriaid er mwyn diogelu bywiogrwydd canol trefi.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Diweddariad Tachwedd 2017</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol eisoes yn gallu gosod amodau ar ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau ar gyrion trefi i leihau i’r eithaf yr effaith ar ganol trefi. Ym mis Hydref 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gylchlythyr 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu. Mae’n cynnwys amodau enghreifftiol sy’n ymdrin â nifer o amgylchiadau gwahanol gan gynnwys datblygu sy’n gysylltiedig â manwerthu. Mae’n rhaid i’r amodau cynllunio ymwneud â safle’r cais a heb fod y tu allan i reolaeth y sawl sy’n gwneud y cais.<br><br>Mae fersiynau diwygiedig o Bennod 10 Polisi Cynllunio Cymru Datblygu Canolfannau Manwerthu a Masnachol a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 4 Datblygiadau Manwerthu a Masnachol (Tachwedd 2016), yn cryfhau polisi a chyngor cynllunio cenedlaethol ar gynllunio manwerthu. Maent yn cynnwys gwelliannau sy’n atgyfnerthu cyngor ar ddefnyddio amodau ar geisiadau cynllunio ynghylch manwerthu.<br><br>Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn amlinellu sut y dylid defnyddio rhwymedigaethau cynllunio mewn perthynas â datblygiad newydd. Ystyr rhwymedigaethau cynllunio yw trefniadau i oresgyn rhwystrau a allai atal caniatâd cynllunio. Gellir defnyddio cyfraniadau gan ddatblygwyr i wrthbwyso canlyniadau negyddol datblygu, i helpu i ddiwallu anghenion lleol neu sicrhau buddion a fyddai’n gwneud datblygiad yn fwy cynaliadwy.</td></tr>
</table>

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| **<u>Argymhelliad 3 -</u> Credwn y dylid lledaenu enghreifftiau o arfer da wrth hyrwyddo canol trefi yn ehangach, ac rydym yn argymell bod Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru yn datblygu ei rôl yn y maes hwn, gan gynnwys addysgu ac annog gweithwyr proffesiynol yn y sector. (Tudalen 15)** | **Derbyn**<br><br>Dyma faes y bydd Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w ddatblygu fel rhan o'n hadolygiad o adfywio. Deallwn y bydd Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru yn lansio 'Trefi Bach: Rhwydwaith Polisi ac Ymarfer' yn fuan sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o arfer gorau wrth adfywio canol trefi ac addysgu gweithwyr proffesiynol yn y sector. Byddwn yn cydweithio'n agos â Chanolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru er mwyn cefnogi eu gweithgareddau. |
| **Diweddariad Tachwedd 2017** | |
| Mae Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru yn parhau i fod yn sefydliad pwysig ar gyfer rhannu arfer gorau yng Nghymru. Mae Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru wedi helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid cyflawni i roi rhaglenni adfywio ar waith ledled Cymru. Yn ogystal â phecynnau cymorth ac ymchwil, mae hefyd yn meithrin gallu'r proffesiwn a grwpiau cymunedol drwy gynnal ymweliadau arfer gorau, cyhoeddi astudiaethau achos cysylltiedig, a chynnal seminarau a chynadleddau.<br><br>Yn fwy diweddar, yn ystod haf 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos ag Ymddiriedolaeth Carnegie UK i ledaenu arfer gorau ledled Cymru. Yn dilyn eu hymchwil rhyngwladol, Turnaround Towns, cynhaliwyd gweithdai i drafod dyfodol canol trefi yng Nghymru. Cyflwynwyd Astudiaethau Achos o bob cwr o'r byd a oedd yn tynnu sylw at y ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â lleoedd llwyddiannus.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod hi'n bwysig gweithio gyda, rhanddeiliaid ehangach a defnyddio eu harbenigedd, megis Consortiwm Manwerthu Cymru a Chymdeithas Rheoli Trefi a Dinasoedd. Rydym hefyd wedi gweithio ochr yn ochr â'r Sefydliad Rheoli Lleoedd fel rhan o'n gwaith gyda Thasglu'r Cymoedd. | |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| <u>**Argymhelliad 4 –**</u> **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu mwy o waith ymchwil ar effeithiau posibl archfarchnadoedd ar ansawdd canol trefi er mwyn llywio'r broses o ddadansoddi effaith datblygiadau arfaethedig o fewn y system rheolaeth gynllunio a'i gwella, ac y dylai asesiadau o'r effaith ar fanwerthwyr lleol fod yn orfodol mewn perthynas â chynigion archfarchnadoedd. (Tudalen 17)** | **Derbyn**<br><br>Byddwn yn comisiynu ymchwil a fydd yn astudio effaith datblygiad manwerthu newydd ar ganol trefi yng Nghymru.  Bydd hyn yn datblygu'r canllawiau presennol ynghylch pryd y dylai asesiadau effaith manwerthu gael eu paratoi, gan y byddem yn disgwyl i unrhyw newid i ganllawiau presennol fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a ddarperir drwy'r ymchwil. |
| **Diweddariad Tachwedd 2017** | |
| Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil gan ymgynghorwyr o gwmni Genecon i edrych ar fanylion datblygu manwerthu yng Nghymru ac i ystyried a oedd y polisi cynllunio cenedlaethol yn addas at y diben.  Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Ebrill 2014 a gwnaed 15 o argymhellion ynghylch newidiadau posibl i bolisi cynllunio cenedlaethol.<br>Mae'r ymchwil wedi llywio'r diwygiadau i Bennod 10 Polisi Cynllunio Cymru Datblygu Canolfannau Manwerthu a Masnachol a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 4 Datblygiadau Manwerthu a Masnachol, sydd gyda'i gilydd yn ehangu a chryfhau polisi a chyngor cynllunio cenedlaethol ar gynllunio manwerthu. Mae datblygiadau manwerthu arfaethedig y tu allan i ganolfan manwerthu a masnachol dynodedig yn amodol ar brawf angen ac mewn achos lle mae'r datblygiad yn 2500 metr sgwâr neu fwy ar asesiad effaith. | |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
| --- | --- |
| **<u>Argymhelliad 5 –</u> Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu hannog, o fewn eu Cynllun Datblygu Lleol, i ystyried datblygiadau swyddfa a gweithle fel modd i gynyddu nifer y bobl mewn canol trefi, ac y dylent asesu canlyniadau posibl cynigion ar gyfer datblygiadau swyddfa ar gyrion trefi, a dewisiadau amgen, yn fwy gofalus. (Tudalen 18)** | **Derbyn**<br><br>Mae’r newidiadau arfaethedig i Bennod 7 Polisi Cynllunio Cymru (Cynnal yr Economi) yn pennu y dylai awdurdodau lleol geisio canolbwyntio ar ddatblygiadau sy’n denu nifer fawr o bobl, gan gynnwys datblygiadau manwerthu a swyddfeydd, yng nghanol dinasoedd, trefi a phentrefi. Caiff y safbwynt hwn ei ailadrodd ym Mhennod 10 Polisi Cynllunio Cymru (Manwerthu) sy’n pennu rhai canolfannau trefi, canolfannau ardal, canolfannau lleol a chanolfannau pentref fel y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer swyddogaethau manwerthu, hamdden a swyddogaethau eraill atodol. Mae’n rhaid i’r awdurdod cynllunio lleol ddangos bod ganddo ddigon o dystiolaeth ar gyfer cefnogi strategaethau a pholisïau lleol a rhai sy’n benodol i safleoedd a gynhwysir o fewn eu Cynlluniau Datblygu Lleol, a ddatblygwyd yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol. |
| **Diweddariad Tachwedd 2017** | |
| Cyhoeddwyd y polisi cynllunio diwygiedig ar ddatblygu economaidd ym Mholisi Cynllunio Cymru ym mis Hydref 2012. Wedi hynny cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23 ym mis Chwefror 2014.<br><br>Mae Pennod 10 Polisi Cynllunio Cymru a TAN 4 diwygiedig (gweler uchod) yn cynnwys canllawiau ychwanegol ar y dull dilyniannol ar gyfer dethol safleoedd ar gyfer manwerthu a defnydd arall atodol i ganolfan manwerthu a masnachol. Mae’r dull dilyniannol yn cefnogi’r egwyddor ‘canol trefi yn gyntaf’ sy’n ceisio cyfeirio datblygiadau manwerthu a masnachol i ganol trefi. | |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| **<u>Argymhelliad 6 -</u> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu arweinyddiaeth Weinidogol benodedig ar gyfer canol trefi, gan gynnwys sefydlu fforwm polisi canol trefi wedi'i gadeirio gan y Gweinidog arweiniol, a fyddai'n dwyn ynghyd swyddogion o Adrannau gwahanol a chynrychiolwyr allweddol o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i rannu arfer da a nodi cynllun gweithredu a fframwaith monitro ar gyfer adfywio canol trefi Cymru. (Tudalen 21)** | **Derbyn**<br><br>Yn rhinwedd fy swydd fel y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, fi sy'n bennaf gyfrifol am adfywio canol trefi ar ran Llywodraeth Cymru. Mae nifer o sefydliadau a phartneriaethau allanol hefyd yn cefnogi'r gwaith, gan gynnwys y Panel Adfywio Cenedlaethol a Chanolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru. |

| Diweddariad Tachwedd 2017 |
|---|
| Mae arweinyddiaeth o ran adfywio canol trefi o fewn fy mhortffolio fel Gweinidog Tai ac Adfywio ac rwy'n cydnabod y rôl bwysig o ran cydlynu gweithgaredd ar draws portffolios gwahanol y Llywodraeth.<br><br>Ochr yn ochr â chyhoeddi'r rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio newydd byddaf yn sefydlu Bwrdd Rhaglen Adfywio i ddarparu trosolwg o adfywio ledled Cymru, ynghyd â Phanel Buddsoddi Cenedlaethol mewn Gwaith Adfywio i graffu ar gynigion buddsoddi. Bydd gan y ddwy bartneriaeth drosolwg o adfywio ledled Cymru a bydd ganddynt gynrychiolaeth eang o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
| --- | --- |
| **<u>Argymhelliad 7 –</u> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwaith o ddatblygu trafnidiaeth integredig a chynaliadwy yng nghanol trefi a dinasoedd Cymru yn flaenoriaeth o ran cyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau clir i awdurdodau lleol i sicrhau bod integreiddio trafnidiaeth yn rhan graidd o bob cynllun i adfywio ac ailddatblygu canol tref. (Tudalen 24)** | **Derbyn**<br><br>Mae teithio cynaliadwy yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ym maes trafnidiaeth. Yn ddiweddar rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau flaenoriaeth i'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol er mwyn gallu cyflawni ymrwymiadau'r Llywodraeth hon ynghylch mynd i'r afael â thlodi, cynyddu lles a hybu twf economaidd. Mae parhau i ddatblygu trafnidiaeth integredig a chynaliadwy o fewn trefi Cymru yn flaenoriaeth o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, fel y tystia'r ymrwymiad i fuddsoddi yn y fenter Canolfannau Teithio Cynaliadwy am o leiaf 3 blynedd arall ynghyd â buddsoddiad parhaus mewn ymyriadau dewisiadau doethach fel y fenter Cynlluniau Teithiau Personol a lansiwyd yng Nghaerdydd ym mis Medi 2011 a'r gwaith o'u hyrwyddo. |

**Diweddariad Tachwedd 2017**

Cyhoeddwyd Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol ar 16 Gorffennaf 2015. Mae'r Amserlen Gyflenwi yn y Cynllun yn cynnwys nifer o gynlluniau fydd yn cyfrannu tuag at ddatblygu system drafnidiaeth integredig a chynaliadwy mewn canol trefi a dinasoedd yng Nghymru.

Mae prosiect y Metro yn Ne-ddwyrain Cymru yn canolbwyntio ar wella integreiddio rhwng cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd gwelliannau i orsafoedd yn cynnwys gwell mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn, cyflwyno cyfleusterau parcio a theithio, a gwelliannau i wasanaethau bws yn cefnogi datblygiad system drafnidiaeth gynaliadwy yn y rhanbarth.

Byddwn yn rhoi dull tebyg ar waith i wella integreiddio rhwng dulliau teithio a gwneud trafnidiaeth gynaliadwy yn fwy deniadol i ddefnyddwyr mewn rhannau eraill o Gymru.

Nodwyd blaenoriaeth debyg yng Nghanllawiau'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol i awdurdodau lleol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| **<u>Argymhelliad 8 –</u> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu fframwaith monitro perfformiad trylwyr ac yn comisiynu gwerthusiad annibynnol manwl o'r Cynllun Canolfan Teithio Cynaliadwy. Dylai hyn gynnwys asesu effaith pob cynllun ar fywiogrwydd y canol trefi dan sylw, gan gynnwys mynediad i bobl anabl. (Tudalen 28)** | **Derbyn**<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru gomisiwn fframwaith ar gyfer cyflawni gwaith Cynllunio Teithio Personol ar draws Cymru, sy'n cynnwys Cynllunio Teithio i'r Ysgol a Chynllunio Teithio i'r Gweithle. Dyfarnwyd y contract ym mis Rhagfyr 2010 am gyfnod o bedair blynedd. Mae'r fframwaith yn cynnwys gofyniad i ymgymryd â gwaith monitro a gwerthuso perfformiad. Mae'r fethodoleg arfaethedig ar gyfer monitro a gwerthuso perfformiad wrthi'n cael ei hystyried gan y Grŵp Llywio ar gyfer Canolfannau Teithio Cynaliadwy. Unwaith y caiff ei chymeradwyo caiff ei chaffael drwy'r comisiwn fframwaith presennol.<br><br>Rydym hefyd wrthi'n monitro effaith y buddsoddiad yn y seilwaith. |
| **Diweddariad Tachwedd 2017** | |
| Cwblhawyd y rhaglen Cynllunio Teithio Personol 4 blynedd ym mis Rhagfyr 2014. Mae adroddiad gwerthuso ar y prosiectau a gyflawnwyd yng Nghaerdydd, Pontypridd, Caerffili a Môn a Menai wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad wrthi'n cael ei ystyried ar hyn o bryd a bydd yn llywio datblygiad model trafnidiaeth ar gyfer ardal y Metro. | |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| **<u>Argymhelliad 9 – </u>Credwn y gall fod angen i fusnesau mewn canol trefi weithredu oriau agor mwy hyblyg er mwyn diwallu anghenion cwsmeriaid sy'n newid. Rydym yn argymell felly fod Llywodraeth Cymru yn diweddaru ei Nodyn Cyngor Technegol ar Gynllunio a Manwerthu i gynnwys canllawiau i awdurdodau lleol ar osod amodau ar ddatblygiadau manwerthu mewn perthynas ag oriau gwaith mwy hyblyg. (Tudalen 29)** | **Derbyn**<br><br>Rydym yn derbyn bod ein canol trefi yn newid, a bod ein gweithgareddau siopa a hamdden a'n harferion prynu hefyd yn newid. Mae potensial mewn safleoedd gwag i greu unedau preswyl, gan gynnwys uwchben siopau a gwasanaethau eraill ar y llawr gwaelod.<br><br>Ni ellir gosod amodau'n ôl-weithredol ar yr amodau oriau agor yn achos datblygiadau presennol. Serch hynny, fel rhan o'r rhaglen Gwella Ceisiadau Cynllunio, mae gwaith ar y gweill i adolygu canllawiau Cymru ynghylch defnyddio amodau gyda chaniatâd cynllunio; bydd hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus maes o law. Wrth ystyried a oes angen amod penodol, dylai awdurdodau cynllunio ofyn iddynt eu hunain a fyddai caniatâd wedi'i wrthod pe na byddai'r amod hwnnw wedi'i roi. Ymlith y ffactorau eraill y mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio dalu sylw iddynt mae ystyried a yw amod arfaethedig yn berthnasol i gynllunio, a oes modd ei orfodi, ac a yw'n rhesymol ym mhob agwedd arall.<br><br>Caiff yr angen am ddiweddaru Nodyn Cyngor Technegol 4 ei ystyried yng ngoleuni'r ymchwil y cyfeirir ati yn Argymhellion 1 a 4. |
| **Diweddariad Tachwedd 2017** | |
| Ym mis Hydref 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gylchlythyr 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu. Mae'n cynnwys amodau enghreifftiol sy'n ymdrin â nifer o amgylchiadau gan gynnwys y geiriad gofynnol i nodi 'oriau gweithredu' sy'n ymwneud â chais cynllunio.<br><br>Mae'r Nodyn Cyngor Technegol 4 diwygiedig hefyd yn rhoi cyngor atodol i Gylchlythyr 016/2014 ar amodau sy'n ymwneud â datblygu manwerthu, gan gynnwys newid defnydd, mathau o nwyddau a werthir, nifer a maint unedau, amser trosglwyddo nwyddau ac amwynder lleol. | |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
| --- | --- |
| **<u>Argymhelliad 10 –</u> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau gweithredu arloesol sydd wedi'u cynllunio ac sy'n annog perchenogion eiddo i roi eu heiddo gwag mewn canol trefi ar osod at ddibenion byw a gwaith a fyddai'n cyfrannu at fywiogrwydd canol trefi heb danseilio gwerth hirdymor yr eiddo. (Tudalen 30)** | **Derbyn**<br><br>Rydym eisoes yn cefnogi prosiectau a rhaglenni, fel yr Ardaloedd Adnewyddu Tai, a all fod yn sbardun i ailddefnyddio eiddo gwag a gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywiogrwydd canol trefi. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig ag eiddo gwag, a byddwn yn ystyried cyfleoedd pellach yn y maes hwn. |

**Diweddariad Tachwedd 2017**

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi amryw o wahanol fentrau i sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto.

Mae cynllun Benthyciadau Canol Trefi yn cefnogi prosiectau sy'n cynnig dyfodol hyfyw i dir ac adeiladau gwag. Rydym yn rheoli cynlluniau mewn 18 awdurdod lleol ledled Cymru ac yn darparu cyllid benthyciadau i awdurdodau lleol naill ai i'w ddefnyddio eu hunain neu i roi cymorth i drydydd partïon i ailddatblygu adeiladau allweddol. Mae'r cynllun yn ysgogi'r sector preifat i fuddsoddi ac yn galluogi perchenogion a datblygwyr eiddo i gael gafael ar arian a'i ad-dalu dros gyfnod o 5 mlynedd. Gellir ailgylchu'r arian a ddarperir i awdurdodau lleol dro ar ôl tro dros gyfnod o 15 mlynedd. Mae nifer fawr wedi manteisio ar y rhaglen hon ac mae gwerth £20 miliwn o fuddsoddiad yn y system ar hyn o bryd, a gyda'r elfen y gellir ei hailgylchu bydd yn darparu gwerth £66 miliwn o fuddsoddiad dros y 15 mlynedd nesaf.

Mae'r gweithgaredd hwn yn atodol i'r gwaith a wnaed eisoes drwy Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a bydd hefyd o gymorth o ran modelau cyllido arloesol ar gyfer rhaglen newydd Targedu Buddsoddiad Adfywio a lansiwyd yn ddiweddar ac y bwriedir iddi gychwyn ym mis Ebrill 2018. O dan raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid mae'r arian wedi'i ddefnyddio mewn amryw o ffyrdd, er enghraifft:

- Cartrefi Uwchben Siopau – defnyddio unedau manwerthu gwag ar y llawr cyntaf a'r ail lawr i greu lleoedd i bobl leol fyw a chadw cymunedau ynghyd;
- Unedau tai fforddiadwy i bobl sy'n agored i niwed – datblygu hen adeiladau i greu lleoedd preswyl diogel ac ymarferol yng nghanol trefi i bobl oedrannus neu anabl, a'u cadw yng nghanol trefi ac yn agos at wasanaethau cyhoeddus;
- Modelau Tai Arloesol – datblygu unedau gwaith/byw i greu darpariaeth ar gyfer marchnad sy'n newid a chaniatáu i bobl iau gael mynediad i unedau preswyl sy'n diwallu eu hanghenion; a
- Chreu Mannau/Canolfannau Cymunedol i alluogi pobl nid yn unig i gael mynediad i wasanaethau ond hefyd i ddysgu, gweithio a chael hwyl yn y cyfleusterau addasadwy hyn.

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| **<u>Argymhelliad 11 –</u> Rydym yn argymell bod Cadw yn parhau â'i hastudiaethau pennu nodweddion mewn trefi a phentrefi a'u bod yn rhan annatod o unrhyw gynllun adfywio. Rydym yn argymell hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau ac yn annog ei phartneriaid datblygu i wneud yr un peth. (Tudalen 33)** | **Derbyn**<br><br>Rydym o'r farn fod Astudiaethau Pennu Nodweddion yn bwysig wrth fynd ati i werthfawrogi hanes a chymeriad lle, a bydd y nodweddion hynny'n rhan annatod o gynlluniau adfywio yn y dyfodol. Bydd Cadw yn parhau i wneud Astudiaethau Pennu Nodweddion mewn trefi penodol, a bydd yn cynnig cyngor a chyfarwyddyd i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yn seiliedig ar ddealltwriaeth o gymeriad hanesyddol.<br><br>Byddwn yn annog mwy o ddefnydd ar Wasanaeth Adolygu Dyluniadau Comisiwn Dylunio Cymru ar gyfer ein gweithgareddau adfywio canol trefi a byddwn yn annog ein partneriaid adfywio i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. |
| **Diweddariad Tachwedd 2017** | |
| Mae Cadw wedi cyhoeddi cyfanswm o 13 adroddiad 'Deall Nodweddion Trefol' ar gyfer amryw o drefi ledled Cymru. Mae hefyd wedi cyhoeddi canllawiau arfer gorau ar reoli cymeriad hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio'n agos ag awdurdodau lleol ledled Cymru i ddiogelu a hybu cyfraniad amgylchedd hanesyddol at ansawdd lle, a thrwy weithgaredd wedi'i dargedu yng Ngwynedd, mae wedi helpu i hyrwyddo rhaglen adfywio lwyddiannus sy'n seiliedig ar dreftadaeth yng Nghaernarfon, fel peilot ar gyfer ymgysylltiad tebyg mewn mannau arall.<br><br>Cafodd awdurdodau lleol a phartneriaid datblygu eu hannog i geisio cyfarwyddyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru fel rhan o amodau dyfarnu grant o dan fframwaith adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Gallwn gyfeirio at nifer o enghreifftiau lle y cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ddylunio mewn perthynas â gweithgaredd adfywio. | |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| <u>Argymhelliad 12 –</u> **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol ar gyfer manwerthu a chanol trefi er mwyn sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn pennu gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer pob un o'r canol trefi a'r strydoedd mawr yn eu Cynllun Datblygu Lleol, ac i ddarparu fframwaith cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i sicrhau y caiff datblygiadau priodol eu lleoli mewn mannau addas y gellir eu cyrraedd yn hawdd drwy drafnidiaeth gynaliadwy. (Tudalen 35)** | **Derbyn**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y newidiadau arfaethedig i Bennod 7 o Bolisi Cynllunio Cymru yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio sylfaen dystiolaeth o nodweddion economaidd eu hardaloedd, ac i ddatblygu polisïau priodol ar gyfer cynlluniau datblygu yn seiliedig ar ragdybiaethau deallus am y newidiadau posibl, gan ystyried y polisïau economaidd cenedlaethol. Mae'r canllawiau ym Mhennod 8 (Trafnidiaeth) a Phennod 10 (Manwerthu a Chanol Trefi) o Bolisi Cynllunio Cymru yn darparu hierarchaeth i hysbysu penderfyniadau ynghylch lleoliad datblygiadau newydd ac maent yn dangos yn glir mor bwysig yw sicrhau trafnidiaeth gynaliadwy. |
| **Diweddariad Tachwedd 2017** | |
| Mae adroddiad Genecon yn amlygu pwysigrwydd Cynlluniau Datblygu Lleol o ran cyflwyno gweledigaeth, strategaeth a/neu Uwchgynllun clir ar gyfer canol trefi. Caiff hyn ei adlewyrchu ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 4 diwygiedig, sy'n darparu cyngor a chanllawiau polisi ar ddatblygu hierarchaethau manwerthu, strategaethau, uwchgynlluniau a chynlluniau cynefin mewn Cynllun Datblygu Lleol. | |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| <u>**Argymhelliad 13 –**</u> **Rydym yn argymell, o fewn fframwaith y Cynllun Datblygu Lleol, fod gan bob tref gynllun cynhwysfawr ar waith, a ddatblygwyd gan bartneriaeth leol o randdeiliaid allweddol a thrwy ymgysylltu â'r gymuned, sy'n cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar hyfywedd canol y dref. (Tudalen 37)** | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Rydym yn derbyn byrdwn argymhelliad y Pwyllgor. Mater i'r awdurdodau lleol symud ymlaen ag ef yw hwn drwy'r sylfaen dystiolaeth a'r cynllun cynnwys cymunedau, sy'n angenrheidiol i sicrhau Cynlluniau Datblygu Lleol Cadarn.<br><br>Mae cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol yn rhan o'r prawf o ddilysrwydd y Cynllun Datblygu Lleol, a chaiff hynny ei asesu gan Arolygydd annibynnol. O ran cynnwys y gymuned, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol baratoi Cynllun Cynnwys Cymunedau yn dangos sut fydd yr awdurdod yn cynnwys y gymuned ym mhob cam o'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a'r bobl neu'r grwpiau ddylai fod yn rhan o'r broses.<br><br>Byddwn yn ystyried cryfhau'r agwedd hon fwy fyth fel rhan o'n hadolygiad o adfywio. |
| **Diweddariad Tachwedd 2017** | |
| Mae adroddiad Genecon yn amlygu pwysigrwydd sefydlu gweledigaeth, strategaeth neu Uwchgynllun clir ar gyfer canol trefi i roi arweiniad a threfn wrth ddatblygu polisïau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 4 diwygiedig, sy'n darparu cyngor a chanllawiau polisi ar ddatblygu hierarchaethau manwerthu, strategaethau, uwchgynlluniau a chynlluniau cynefin mewn Cynllun Datblygu Lleol yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.<br><br>Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgynghori â'r sector preifat a chymunedau lleol wrth gynllunio eu strategaethau a'u cynlluniau manwerthu. | |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| **<u>Argymhelliad 14 –</u> Credwn mai'r hyn sy'n allweddol i lwyddiant adfywio canol trefi yn lleol yw arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol. Rydym yn argymell felly fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i roi gwell cefnogaeth i'r bobl sydd â'r sgiliau angenrheidiol a pharch y gymuned leol i weithredu fel eiriolwyr i ddwyn ynghyd yr agweddau gwahanol ar waith cynllunio ynghyd â phawb sy'n chwarae rhan ynddo. (Tudalen 38)** | **Derbyn**<br><br>Mae llwyddiant cynlluniau adfywio canol trefi yn cael eu priodoli'n aml iawn i ymroddiad a brwdfrydedd unigolion lleol sydd â gallu cryf i arwain. Byddwn yn ystyried sut orau i gefnogi arweinyddiaeth leol fel rhan o'r opsiynau y byddwn yn eu hystyried ar gyfer ein buddsoddiadau yn y dyfodol. |

**Diweddariad Tachwedd 2017**

Mae harneisio angerdd, brwdfrydedd ac ymroddiad eiriolwyr lleol yn egwyddor sylfaenol ar draws ein holl weithgareddau adfywio. Ni ellir cyflawni adfywio ar ei ben ei hun ac rydym yn bwriadu gweithio ag ystod o randdeiliaid ac unigolion allweddol yn hyn o beth. Gallwn gyfeirio at ddwy raglen yn y blynyddoedd diwethaf sydd wedi ceisio rhoi grym i eiriolwyr lleol gymryd yr awenau o ran cefnogi adfywio.

Drwy raglen Partneriaeth Canol Trefi rydym wedi darparu cyllid o £845,000 i gefnogi ugain o bartneriaethau ledled Cymru, gyda phob un yn derbyn hyd at £50,000 yr un. Nod y rhaglen oedd gweithredu fel catalydd i ddwyn sefydliadau ynghyd i ddatblygu Cynllun Gweithredu pwrpasol ar gyfer eu tref, cyflawni prosiectau a gweithgareddau a gwella'r gallu i arwain. Mae'r gronfa wedi'i hanelu at gefnogi gweithgareddau sy'n cynyddu nifer y bobl mewn canol trefi, mynd i'r afael â safleoedd ac adeiladau gwag a chefnogi busnesau i dyfu a ffynnu.

Rhoddwyd swm o £248,000 i 10 ardal drwy raglen Ardaloedd Gwella Busnes i archwilio'r posibilrwydd o gomisiynu Ardal Gwella Busnes a chymryd yr ardaloedd dichonadwy hynny i bleidlais. O'r 10 ardal, roedd 8 yn llwyddiannus ar ôl pleidlais, sy'n cymryd cyfanswm nifer yr Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru i 12. Mae Ardaloedd Gwella Busnes yn chwarae rhan arwyddocaol o ran adfywio ardaloedd drwy roi un llais cyfunol i fusnesau, cefnogi twf economaidd a grymuso a chryfhau cymunedau. Mae Ardaloedd Gwella Busnes yn tueddu i fod ag amcanion strategol sy'n gysylltiedig â rheoli strydoedd mawr a chanol trefi lleol, a hanes llwyddiannus o gyflawni newid gwirioneddol mewn ardaloedd sy'n dirywio. Mae sicrhau grŵp arweinyddiaeth cryf yn ffactor llwyddiant allweddol o ran sefydlu Ardal Gwella Busnes yn llwyddiannus.

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| <u>**Argymhelliad 15 –**</u> **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn helpu awdurdodau lleol a chymunedau i fod yn rhagweithiol wrth chwilio am ffynonellau buddsoddi ar gyfer prosiectau adfywio canol trefi a chael gafael arnynt lle nad oes arian cyhoeddus ar gael. (Tudalen 40)** | **Derbyn**<br><br>Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn, er bod angen i ni reoli'r disgwyliadau o ran y lefel o fuddsoddiad sydd ar gael, ac unrhyw ofynion perthnasol, er enghraifft yr enillion sydd eu hangen. |
| **Diweddariad Tachwedd 2017** | |
| Gall pob awdurdod lleol yng Nghymru fanteisio ar Reolwr Adfywio yn Llywodraeth Cymru. Mae pob awdurdod lleol yn cael rhywfaint o fuddsoddiad uniongyrchol i adfywio canol trefi ar ffurf grantiau neu fenthyciadau. Nod y Rheolwyr Adfywio yw helpu awdurdodau lleol i ddefnyddio dulliau arloesol i gefnogi canol trefi ym mhob ardal. | |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| **<u>Argymhelliad 16 –</u> Rydym yn argymell bod panel annibynnol Llywodraeth Cymru ar ardrethi busnes yn ystyried newidiadau mewn deddfwriaeth ac yn y broses o arfer pwerau disgresiwn, gyda'r nod o wella'r amrywiaeth o fusnesau manwerthu sy'n bodoli mewn canol trefi a'u hansawdd. (Tudalen 43)** | **Derbyn**<br><br>Mae'r panel annibynnol ar ardrethi busnes yn gwybod am argymhelliad y Pwyllgor a'r materion ehangach sy'n ymwneud ag adfywio canol trefi. Caiff hyn ei ystyried fel rhan o'i adroddiad terfynol sydd i'w ddisgwyl cyn diwedd Mawrth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried argymhellion y Panel ac yn ymateb i'w adroddiad terfynol yn yr haf. |

**Diweddariad Tachwedd 2017**

O ganlyniad i Ailbrisio ardrethi annomestig yn 2017 a gynhaliwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i gefnogi busnesau yn y sector manwerthu a'r rhai ar y stryd fawr.

Mae'r mesurau hyn yn cynnwys y canlynol.

- Ymestyn cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach dros dro hyd at 31 Mawrth 2018.
- Cynllun Rhyddhad Ardrethi parhaol ar gyfer Busnesau Bach y bwriedir ei gyflwyno o 1 Ebrill 2018.
- Cynllun Rhyddhad Ardrethi Trosiannol gwerth £10 miliwn sydd wedi'i ariannu'n llawn a gyflwynwyd o 1 Ebrill 2017 ac sydd wedi'i gynllunio i helpu busnesau sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach drwy gyflwyno cynnydd mewn atebolrwydd (os yn berthnasol) yn raddol dros gyfnod o dair blynedd ar gyfradd o 25%, 50% a 75%, gyda'r atebolrwydd llawn yn cael ei gyflwyno yn y bedwaredd flwyddyn. Cafodd y cynllun ei gyflwyno'n benodol i gynorthwyo busnesau bach yr effeithiwyd yn andwyol ar eu hawl i ryddhad ardrethi busnesau bach o ganlyniad i broses ailbrisio 2017.
- Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr gwerth £10 miliwn ar gyfer 2017-18 i ddarparu rhyddhad ardrethi annomestig wedi'i dargedu ar gyfer eiddo ar y stryd fawr, gan gynnwys siopau, tafarndai a thai bwyta.
- Unwaith y caiff Rhyddhad Trethi Trosiannol, Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a mathau eraill o ryddhad gorfodol a dewisol eu hystyried, gwelir bod gwerth £210 miliwn o gymorth ariannol yn cael ei ddarparu, a bod tri-chwarter yr holl drethdalwyr yng Nghymru yn 2017-18 yn elwa o'r cymorth hwnnw.
- Yn fwy eang, byddwn yn edrych ar ffyrdd o wella'r system ardrethi annomestig, er enghraifft drwy newidiadau gweinyddol i wella effeithlonrwydd a mesurau i helpu i fynd i'r afael â chamddefnydd fel bod pob trethdalwr yn cyfrannu'n deg at ariannu gwasanaethau lleol.
- Drwy wneud y system yn fwy effeithlon, drwy fynd i'r afael â cham-ddefnydd gan y rhai nad ydynt yn talu a thrwy ddarparu rhyddhad mwy pendant, ein nod yw gallu rhoi cymorth wedi'i dargedu'n well i fusnesau bach o 2018 ymlaen.

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| **<u>Argymhelliad 17 – </u>Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu cynllun peilot, o fewn rheolau cystadlu'r UE ac mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a pherchenogion eiddo, sy'n helpu busnesau newydd i sefydlu mewn canol trefi. (Tudalen 44)** | **Derbyn**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn fel rhan o'i chynigion ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol. |
| **Diweddariad Tachwedd 2017** | |
| Gweler yr ymateb i Argymhelliad 16 uchod. | |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| <u>Argymhelliad 18 –</u> **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, wrth negodi'r cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020, yn ceisio sicrhau bod y Rheoliadau newydd yn ddigon hyblyg i alluogi'r Cronfeydd i gael eu defnyddio i gefnogi gweithgareddau adfywio canol trefi yn ystod y cylch nesaf. (Tudalen 45)** | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>O fewn Rhaglen Gydgyfeirio bresennol yr UE mae cyfanswm o 24 o brosiectau adfywio canol trefi wedi'u cymeradwyo gan WEFO sy'n werth oddeutu £270 miliwn o fuddsoddiad.  Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno achos, mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a sefydliadau'r UE, i sicrhau parhad ym muddsoddiad Cronfeydd Strwythurol yr UE.  Caiff adfywio canol trefi ei ystyried fel rhan o'r broses hon. |
| **Diweddariad Tachwedd 2017** | |
| Mae cais am £38 miliwn o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr UE i ariannu'n rhannol y cynllun 'Adeiladu ar gyfer y Dyfodol' wedi cael ei gymeradwyo gan WEFO. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â'n gweithgareddau adfywio yn fwy cyffredinol a'i nod yw helpu i gaffael ac ailddatblygu adeiladau allweddol yng nghanol trefi sy'n wag, segur neu'n cael eu defnyddio'n rhannol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwerth £16 miliwn o Arian Cyfatebol a Dargedir ar gyfer y rhaglen a fydd yn parhau tan 2023 ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. | |

<table>
<tr><th>Argymhelliad</th><th>Ymateb Llywodraeth Cymru 2012</th></tr>
<tr><td><u>Argymhelliad 19 –</u> Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu asesiad llawn a thryloyw o effeithiolrwydd Ardal Gwella Busnes Abertawe ac yn ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid i lywio'r gwaith o ddatblygu Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru ymhellach. (Tudalen 47)</td><td>Derbyn<br><br>Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried pa mor effeithiol yw'r Ardaloedd Gwella Busnes ac a oes posibilrwydd y gallent gael eu defnyddio mewn man arall yng Nghymru. Gyda chyllid Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd, rydym yn cefnogi datblygiad Ardal Gwella Busnes ym Merthyr Tudful a fydd yn cynnal pleidlais rhwng busnesau'r dref yr haf hwn. Rydym yn awyddus i ddysgu o brofiad Merthyr a byddwn yn comisiynu adolygiad o'r Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys Abertawe. Byddwn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol presennol a dyfodol yr UE i gefnogi gallu busnesau i gystadlu drwy fodel Ardaloedd Gwella Busnes Cymru. Dylai rhanddeiliaid gofrestru unrhyw syniadau am brosiectau drwy wefan WEFO.</td></tr>
<tr><th colspan="2">Diweddariad Tachwedd 2017</th></tr>
<tr><td colspan="2">Comisiynwyd adroddiad gennym i asesu effeithiolrwydd Ardaloedd Gwella Busnes presennol yng Nghymru ac i archwilio'r modd y gellid datblygu Ardaloedd Gwella Busnes, yn fwy cyffredinol. Cwblhawyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2013 ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.<br><br>Cafodd rhaglen i gefnogi sefydlu Ardaloedd Gwella Busnes ei lansio yn 2014. Cefnogwyd 10 ardal gennym i ystyried bod yn Ardal Gwella Busnes drwy eu galluogi i gomisiynu astudiaethau dichonolrwydd, a lle roedd hynny'n ymarferol, i symud ymlaen at bleidlais. Bu wyth Ardal Gwella Busnes yn llwyddiannus fel rhan o'r broses hon.<br><br>Bellach mae 12 Ardal Gwella Busnes wedi'i sefydlu yng Nghymru: Aberystwyth; Pen-y-bont ar Ogwr; Llanelli; Castell-nedd; Pontypridd; Caernarfon; Bangor; Caerdydd; Casnewydd; Abertawe; Merthyr Tudful a Bae Colwyn.</td></tr>
</table>

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
| --- | --- |
| <u>Argymhelliad 20 –</u> **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru drwy Croeso Cymru yn annog partneriaethau tref i farchnata eu nodweddion gwerthu unigryw megis treftadaeth bensaernïol ac ansawdd amgylcheddol, cynnyrch lleol a diwylliant lleol, gan gynnwys grwpiau o drefi o fewn ardal o bosibl fel y gall eu nodweddion gwahanol ategu ei gilydd. Gallai hyn fod yn rhan o gynllun canol y dref a argymhellwyd gennym uchod. (Tudalen 49)** | **Derbyn**<br><br>Mae Croeso Cymru eisoes yn gweithredu yn y modd hwn, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid arall i sicrhau bod y gweithgaredd hwn yn dod â hyd yn oed mwy o werth yn y dyfodol. Mae Croeso Cymru yn chwarae rhan weithgar mewn annog busnesau lleol a phob un sy'n ymwneud â thwristiaeth i gydweithio a hyrwyddo'u hardal fel cyrchfan i dwristiaid. Mae ganddynt wefan benodol, www.dmwales.com, i annog y datblygiadau hyn o ran cyrchfannau twristiaeth a helpu i greu profiad cyflawn ar gyfer ymwelwyr drwy ddod â'r holl asedau twristiaeth mewn un ardal at ei gilydd. Mae Croeso Cymru hefyd yn gweithio'n agos yn yr Ardaloedd Adfywio i sicrhau bod twristiaeth yn chwarae rhan bwysig yng ngweithgareddau adfywio canol trefi. |
| **Diweddariad Tachwedd 2017** | |

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r partneriaethau rheoli cyrchfannau allweddol o amgylch Cymru, ac mae pob un ohonynt wedi cytuno ar gamau gweithredu ac argymhellion i wella'r arlwy yng nghanol eu trefi o fewn eu cynllun rheoli cyrchfannau. Mae'r sector twristiaeth yn parhau i ddarparu cyllid cyfalaf a refeniw y gellir ei ddefnyddio i wella'r arlwy yng nghanol trefi ledled Cymru.

Mae enghreifftiau yn cynnwys:

**Erskine Arms, Conwy** – Prosiect i weddnewid tafarn restredig Gradd 2, hen dafarn coets fawr o'r cyfnod Sioraidd yn wreiddiol, yn dafarn bwtîc 5 Seren â 10 ystafell wely a bwyty â lle i 60. Cymorth gwerth £140,000 ac wedi creu 23 o swyddi llawn amser. Mae'r dafarn wedi bod ar agor ers mis Mehefin.

**Plas yn Dre, Y Bala** - Prosiect i weddnewid bwyty rhestredig Gradd 2 â lle i 100 mewn lleoliad amlwg ar Stryd Fawr y Bala yn dafarn 4 Seren â 9 ystafell wely a bwyty â lle i 50, lolfa â lle i 20 a bar â lle i 30. Y prif waith oedd troi'r 2 lawr uchaf yn 9 ystafell wely en-suite. Cymorth gwerth £72,000 ac wedi creu 7 swydd llawn amser a diogelu 3 swydd lawn amser. Mae'r dafarn wedi bod ar agor ers mis Ebrill.

**Tŷ Castell, Caernarfon –** Prosiect i weddnewid plasty trefol Sioraidd rhestredig Gradd 2, sydd ar hyn o bryd yn siop wag, yn fwyty bwtîc 4 Seren o ansawdd uchel gydag ystafelloedd gwely. Bydd 3 llawr uchaf 'Tŷ Castell' yn cael eu troi'n 5 ystafell wely en-suite, y llawr gwaleod yn fwyty â lle i 32 a'r llawr isaf yn gegin. Cymorth gwerth £50,000 ac yn creu 7 swydd lawn amser.

**Tŷ Glyndŵr, Caernarfon** - Prosiect i greu tŷ bynciau 4 Seren o ansawdd uchel gyda 30 gwely â chaffi a bar yn 'hen dref' Caernarfon. Mae 5 llawr i'r adeilad gyda bar yn y seler, caffi ar y llawr gwaelod a llety tŷ bynciau ar y 3 llawr uchaf. Bydd lle i tua 30 fwyta yn y seler fydd yn cael ei ddefnyddio fel ystafell frecwast yn y bore. Cymorth gwerth £25,000 a chreu 7 swydd lawn amser.

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru 2012 |
|---|---|
| **<u>Argymhelliad 21 –</u> Credwn y dylai Llywodraeth Cymru lunio fframwaith cadarn ar gyfer cynllunio, datblygu a chyflawni prosiectau adfywio canol trefi lle y gellir pennu amcanion a thargedau clir; casglu data; mesur canlyniadau ac effeithiau; a gwerthuso a chymharu perfformiad a llwyddiant. (Tudalen 50)** | **Derbyn**<br><br>Fel y nodais yn y cyflwyniad i'r ymateb hwn, rwyf wedi cyhoeddi y byddwn yn cynnal adolygiad o'n gweithgareddau adfywio cyfredol, yn enwedig y saith Ardal Adfywio. Y bwriad yw pennu beth sy'n gweithio'n dda a dysgu o'r gweithgareddau diweddar hyn. O ran ein rhaglenni buddsoddi yn y dyfodol, byddwn yn sicrhau bod fframwaith yn cael ei ddatblygu i fesur ein perfformiad yn effeithiol ym maes adfywio. |

**Diweddariad Tachwedd 2017**

Datblygodd Llywodraeth Cymru fframwaith amlochrog i fesur perfformiad i gefnogi gweithgaredd adfywio, yn arbennig rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, casglwyd data ym mhob ardal yn cynnwys cyfuniad o wybodaeth feintiol ac ansoddol, megis nifer y bobl mewn canol trefi, cyfraddau adeiladau gwag, defnydd o eiddo, arolygon hyder busnes ac arolygon defnyddwyr canol trefi. Cesglir y data gan Beaufort Research, cwmni annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda'r data'n cael eu casglu'n gyson ar draws pob ardal. Mae'r data yn cael eu casglu ar dair carreg filltir allweddol ym mhob ardal:

- casgliad gwaelodlin – Ebrill-Mehefin 2015;
- casgliad canol tymor – Hydref-Tachwedd 2016;
- casgliad ar ôl i'r rhaglen ddod i ben – Hydref-Tachwedd 2017.

Mae adroddiad ar gyfer 2015 a 2016 wedi'i gyhoeddi ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi'n galluogi i dracio newidiadau ym mherfformiad y canol trefi hyn dros amser a bydd yr wybodaeth hefyd yn ystyriaeth allweddol o ran llywio'r gwerthusiad diwedd rhaglen.

Mae'r gwerthusiad o Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, ynghyd ag ymchwiliad trylwyr ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, wedi bod yn allweddol o ran dylunio a datblygu'r rhaglen adfywio newydd, Targedu Buddsoddi mewn Adfywio. Mae hyn wedi arwain at ddull gweithredu newydd mewn perthynas â chynllunio a chyflawni rhanbarthol, ynghyd ag eglurder ynghylch amcanion ac allbynnau'r rhaglen a fydd yn allweddol ar gyfer gwerthuso.

Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o fesur perfformiad yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod gyda Carnegie Trust UK i ddatblygu offeryn data ar y we ar gyfer dinasoedd a threfi Cymru .Mae cael data cadarn yn ofyniad sylfaenol i gefnogi adfywio, o ran deall anghenion lleoedd cyn rhoi strategaethau adfywio ar waith ac i fonitro effaith unrhyw ymyriadau. Bydd yr offeryn yn cael ei ddatblygu dros y flwyddyn nesaf.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**National Assembly for Wales**
Economy, Infrastructure and Skills Committee

1 Rhagfyr 2017

Annwyl Arriva/Great Western/Cyngor Caerdydd/Stadiwm y Principality/Network Rail/Heddlu De Cymru/Heddlu Trafnidiaeth Prydain

**Effaith seilwaith a chynllunio trafnidiaeth ar ddigwyddiadau mawr yn Stadiwm y Principality yng Nghaerdydd**

Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cymryd diddordeb yn y ffordd y mae seilwaith a chynllunio trafnidiaeth yn effeithio ar ddigwyddiadau mawr yn Stadiwm y Principality yng Nghaerdydd.

Yn dilyn problemau yng Nghwpan Rygbi'r Byd yn 2015, cynhaliodd y Pwyllgor Menter a Busnes yn y Cynulliad diwethaf ymchwiliad a lluniodd **gyfres o argymhellion i fynd i'r afael â'r materion**.

Roedd y Pwyllgor wedi gobeithio y byddai'r rhain yn golygu bod modd osgoi ailadrodd y penawdau negyddol yn dilyn digwyddiadau chwaraeon. Rhoddodd y gwaith o gynnal Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA reswm i'r Pwyllgor feddwl bod hyn wedi digwydd.

Roedd yr adroddiadau yn y cyfryngau yn dilyn y digwyddiad bocsio diweddar yn Stadiwm y Principality ar 28 Hydref yn awgrymu bod rhai teithwyr yn aros am amser annerbyniol o hir am drafnidiaeth adref.

**http://www.mirror.co.uk/sport/boxing/its-embarrassment-wales-queue-chaos-11430563**

Cafodd y problemau hyn eu rhagweld hefyd mewn cyfryngau eraill yng Nghymru a thu allan, gyda phawb yn darogan anhrefn.

**Warning of travel chaos in Cardiff for Anthony Joshua and Kubrat...**

***www.itv.com/news/wales/2017-09-07/possible-travel-chaos-for-boxing-in-cardiff/***

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

7 Medi 2017 - Network Rail have warned there will be fewer trains travelling to Cardiff for fans attending the Anthony Joshua and Kubrat Pulev fight in the ...

**The travel chaos facing Anthony Joshua fans going to his Cardiff fight ...**

**www.walesonline.co.uk** › *News* › *Wales News* › *Arriva Trains Wales*

25 Hydref 2017 - The travel chaos facing Anthony Joshua fans going to his Cardiff fight this ... British Transport Police met the train on its arrival to Cardiff Central.

**Chaos expected on the motorways during Anthony Joshua fight and ...**

**www.bristolpost.co.uk** › *News* › *Bristol News* › *Traffic & Travel*

27 Hydref 2017 - Chaos expected on the motorways during Anthony Joshua fight and .... On the same day, extra traffic is also expected on the M4 heading to and ...

Mae'r Pwyllgor yn ysgrifennu at ystod o bartneriaid i ateb y cwestiynau a ganlyn:

- Pa gamau a gymerwyd ers Cwpan Rygbi'r Byd 2015 i wella'r gwaith o gynllunio a darparu trafnidiaeth ar gyfer digwyddiadau mawr yng Nghaerdydd?
- Pa drefniadau a oedd ar waith i ddiwallu anghenion y rheini a oedd yn teithio i Gaerdydd ac oddi yno ar 28 Hydref?
- Pa heriau penodol a oedd yn codi yn sgil y digwyddiad bocsio hwn a sut y cafodd y rhain eu hystyried yn y broses gynllunio?
- Sut wnaeth y gwaith datblygu yn y Sgwâr Canolog yn effeithio ar y gwaith?
- Pa gamau a gymerwyd i liniaru effaith y gwaith ar Dwnnel Hafren a Thwneli Brynglas?
- Beth oedd eich asesiad o effeithiolrwydd y trefniadau cynllunio teithio ar gyfer y digwyddiad? Ar faint o bobl y cafodd yr oedi effaith negyddol?
- Pa wersi a ddysgwyd o'r digwyddiad hwn, a sut y caiff unrhyw wersi eu cymhwyso i ddigwyddiadau yn y dyfodol?

Byddem yn croesawu ymateb ysgrifenedig erbyn 22 Rhagfyr, er mwyn i'r Pwyllgor benderfynu pa gamau pellach i'w cymryd.

Russell George AC

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon